

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun yr 2ail o Fedi 2024 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Penybont.

Cynghorwyr yn bresennol: Andrew Jones (Cadeirydd), Linda Davies, Alyson Harries, John Phillips, Ambrose Lewis, Ann Sillars, Derrick Harries, Arwyn Jones & Cynghorydd Sir Jean Lewis

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Eirian Howells & Dyfed Davies
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Diolchodd Andrew Jones i bawb ac estynodd ei longyfarchiadau i'n Aelod Seneddol Newydd Ann Davies.
3. **Datgan Buddiannau:**
Byddai'r Cynghorydd Jean Lewis yn gadael y cyfarfod tra fod materion Cynllunio yn cael eu trafod.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 1ar o Orffennaf 2024 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

5. Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:

- Mi'r oedd y Cadeirydd ac y Clerc wedi cyfarfod gyda pherchnogion Lleine parthed y mynediad i Rhoscrugebolion. Yn dilyn trafodaeth, mi wnaeth perchnogion Lleine awgrymu creu cytundeb mynediad preifat drwy cyfreithiwr fel bod perchnogion a tenantiaid Rhoscrugeblion yn medru defnyddio'r trac. Cytunwyd ar hyn a nododd perchnogion Lleine y buasent yn cysylltu gyda chyfreithiwr i ddechrau ar y gwaith papur. Roedd y clerc wedi derbyn neges tecst ar y 31ain o Awst gyda diweddariad yn nodi eu bod yn aros am ymateb wrth y cyfreithiwr ar un cwestiwn ac y byddent yn dod yn ôl at y Cyngor cyn gynted a phosb.
- Roedd Archwilwyr Cymru wedi cwblhau ei Archwiliad am 2022-2023. Darllenwyd a trafodwyd cynnwys yr adroddiad. Cytunwyd i symud rhai materion megis cyflog y clerc, cyllideb a praesept i gyfarfodydd Mis Ionawr o hyn ymlaen.
- Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi cysylltu gyda pherchnogion Madox parthed y ffens, ac roedd wedi cael ei atgyweirio.
- Nid oedd y marciau ffordd wedi cael eu diweddaru eto, ond nododd y Cynghorydd Sir Jean Lewis eu bod ar fin cael eu gwneud. Rhoddwyd rhestr o bryderon am tyllau ar yr heolydd iddi ermwyn eu adrodd i'r Adran Priffyrdd.

6. Gohebiaeth

- a. Roedd ebyst parthed heolydd ar gau wedi cael eu danfon ymlaen i'r Cynghorwyr.
- b. Roedd perchnogion Blaenwauntwr wedi gwneud cynnig i'r Cyngor Sir i brynu yr heol a oedd yn arwain atynt fel nad oedd y gost o gynnal a chadw'r heol yn faich bellach i'r Cyngor Sir. Nodwynt byddai hawliau gan y Cyngor Cymuned ac y tiffeddiannwyr cyfagos0, Mr & Mrs E Harries i gael mynediad i'w tir priodol.
- c. Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau nad oedd unrhyw gynlluniau yn y flwyddyn ariannol yma i ailwynebu unrhyw priffyrdd o fewn y plwyf.
- ch. Roedd cwyn wedi dod parthed cyflwr llwybr Clynfelyn. Roedd y cwyniwr wedi copi mewn yr Adran Cynnal a Chadw gyda'r Cyngor Sir ac mi'r oedd y Clerc wedi ail-nodi y pryderon iddynt.
- d. Roedd aelodaeth ICO wedi cael ei adnewyddu yn awtomatig.

dd. Derbyniwyd anfoneb wrth Yswiriant Zurich am £302.06. Cytunwyd i'w adnewyddu.

e. Roedd y clerc wedi darganfod fod Yr Ymddiriedolaeth Coedwigoedd yn cynnig coed am ddim i grwpiau cymunedol. Gan fod y dyddiad cau ym mis Awst, roedd y clerc wedi ymgeisio ac wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn 420 o goed cynefin. Cytunwyd i blannu'r coed, pan byddent yn cael eu dosbarthu ym mis Tachwedd, ar perthi yn Rhoscrugeblion i greu llwybr natur.

f. Dosbarthwyd manylion am ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda parthed 'Fy Iechyd, Fy Newis'.

ff. Derbyniwyd ebost wrth Tipio Anghyfreithlon Cymru yn cynnig posterï a llenyddiaeth i'w argraffu.

g. Ceisiaudau Cynllunio

a. PL/08160 – Estyniad aml-lawr i'r cefn o Tygwyn, Meidrim, SA33 5PG

b. PL/08196 – Newid adeilad allanol i fod yn swyddfa ac ystafell gemau yn Pantyberth, Trelech, SA33 6RX.

Byddai llythyr cefnogol yn cael ei ddanfon i'r ddau.

7.Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £998.93.

Dosbarthwyd a trafodwyd mantolen yn dangos y Gyllideb v Gwariant o Ebrill i ddiwedd Awst.

8. Unrhyw Fater Arall

- Trafodwyd a chwblhawyd yr Adolygiad Perfformiad Clerc blynyddol ac fe'l lofnodwyd gan y Cadeirydd.
- Rhestrwyd nifer o heolydd a oedd a tyllau difrifol i'r Cynghorydd Sir. Y rhestr oedd: Pantshoni i Maniwan, Y Ficerdy i Glaspant, o Trelech i Dinas Fach ac y rhiw lawr i Dinas ynghyd a phryder a fyddai'r heol yn cael eu ail-wynebu yn dilyn y Gwaith parhaus o dorri coed rhwng Alma a Pandy.

Diolchodd y Cynghorydd Sir i'r Cadeirydd am eu ddymuniadau gorau Ann Davies AS gan nodi byddai ei araith agoriadol yn y Senedd ddydd Iau.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 9.10yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 4ydd o Dachwedd 2024.